Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Datganiad TGCh Cadwyn Clwyd
Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

Mae prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd yn cael eu cynllunio gan ymgorffori TGCh fel thema drawsbynciol yn eu holl gamau a'u prosesau. Bydd y prosiectau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd a fydd yn cyflymu datblygiad y Gymdeithas Wybodaeth o fewn ardal Cynllun Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd.

Cyflawni Amcanion Thema Drawsbynciol y Gymdeithas Wybodaeth

Mae'r Gymdeithas Wybodaeth yn cael ei nodi fel un o themâu trawsbynciol Dogfen Raglennu Sengl y Cynllun Datblygu Gwledig, felly mae'r Gymdeithas Wybodaeth yn treiddio drwy holl agweddau'r Rhaglen.

Er bod ymdrechion penodol i ddefnyddio TGCh i foderneiddio economi'r rhanbarth a datblygu ei sylfaen o gwmnïau bach a chanolig eu maint, er mwyn cael y fantais fwyaf bosibl bydd gweithgarwch y Gymdeithas Wybodaeth yn bresenoldeb amlwg ym *mhob* rhan o'r Rhaglen.

Mae'r sail resymegol o blaid hynny, sef yr angen i ymateb i bwysau cystadleuol mewn economi sydd yn gynyddol yn un byd-eang, wedi deillio o waith ar y lefel Ewropeaidd, y lefel genedlaethol a'r lefel ranbarthol.

Nod y Rhaglen yw cynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan bob busnes a grŵp cymdeithasol yn y rhanbarth ac mae hyn yn arwain at bum amcan penodol sydd i gael eu sefydlu'n rhan annatod o'r rhaglen drwyddi draw. Mae'r pump wedi'u rhestru isod:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r potensial y mae TGCh yn ei gynnig
- Cynyddu'r nifer o bobl sy'n cael hyfforddiant sgiliau o safon uchel yn ymwneud â TGCh
- Gwneud busnesau yn yr ardal yn fwy cystadleuol drwy gefnogi defnyddio mwy ar gymwysiadau TGCh
- Lleihau effeithiau negyddol bod ar y cyrion drwy gynyddu'r defnydd o TGCh gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy diarffordd

- Cynyddu’r ystod o wasanaethau cyhoeddus sy’n cael eu darparu drwy TGCh i wneud busnesau’n fwy cystadleuol ac i wella ansawdd bywyd dinasyddion.